



## Amcan Llesiant 1

Dechrau'n Dda - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19

Ymrwymiaidau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
<b>A - Cefnogi teuluoedd</b>	
Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn ac yn darparu'r gofynion allweddol o ran gofal plant a chwarae gan symud tuag at 30 awr o addysg a gofal am ddim i rieni sy'n gweithio. (Cyf 13091) <b>MF5-41</b>	✓ Mae'r <b>cynnig gofal plant</b> wedi cychwyn yn Sir Gaerfyrddin ers mis Ionawr 2019. Bydd teuluoedd 2,735 o blant 3 a 4 oed yn Sir Gaerfyrddin yn gymwys, sy'n newyddion rhagorol i ofalwyr a rhieni cymwys sy'n gweithio ledled y sir. Mae'r Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae yn monitro cofrestru ac yn cynnig cymorth ychwanegol lle bo'r angen i annog darparwyr. Mae'r gwaith hyrwyddo yn parhau.
Byddwn yn parhau i ddatblygu'r rhaglen Dechrau'n Deg, gan hyrwyddo ymyrraeth gynnar i deuluoedd dan anfantais sydd â phlant (0-3 oed) ac sy'n byw mewn cymunedau amddifad penodol, gan sicrhau bod cymorth amlasiantaeth da yn cael ei roi i deuluoedd ar draws y sbectrwm angen drwy ddatblygu llwybrau clir gyda phartneriaid mewnol ac allanol. (Cyf. 13092) <b>MF5-82</b>	✓ Mae gwasanaeth Dechrau'n Deg yn cael ei gyflwyno'n llawn yn awr ar draws 18 ardal, gan gwmpasu 768 o godau post yn Sir Gaerfyrddin. Mae ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn darparu Rhaglen Plant Iach Cymru drwy ddull amlddisgyblaeth. Mae amrywiaeth o grwpiau ymgysylltu ar waith yn y gymuned i hyrwyddo rhianta cadarnhaol a datblygiad iaith plant.
Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ymlyniad mewn ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion emosiynol plant sy'n agored i niwed. (Cyf. 13093)	✓ Mae hyfforddiant <b>ymwybyddiaeth o ymlyniad</b> wedi cael ei roi i bob un o'r 73 o ysgolion sydd â phlant sy'n derbyn gofal, a darperir rhaglen hyfforddi ar draws yr awdurdod sy'n rhan o'r hyfforddiant craidd yng nghan un y 'rhaglen trawsnewid ymddygiad' mewn ysgolion.
Byddwn yn parhau i drawsnewid arferion gwaith cymdeithasol plant drwy sefydlu a datblygu'r model systematig o weithio (mewn Podiau), gan weithio'n gydlynol gyda <i>Signs of Safety</i> , yn cynnwys y Gwasanaethau Anabledd a Maethu. (Cyf. 13094)	✓ Mae newidiadau i ffurflenni a phrosesau wedi'u gwneud i gefnogi datblygiad arferion systemig. Mae sesiynau datblygu 6 wythnos a fforymau arweinwyr Pod yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cynnig cyfleoedd i rannu dysgu, sgiliau a gwybodaeth. Mae gweithgor hefyd wedi'i ffurfio i helpu i sicrhau bod arferion systemig yn cael eu hintegreiddio gyda <i>Signs of Safety</i> er mwyn bod mor effeithiol a chyson â phosibl. Mae hyfforddiant rheolaidd yn digwydd.

Ymrwymiadau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn gweithredu'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (0-25 oed) sydd wedi'i hailgomisiynu, gan gynnwys newidiadau mewn ymateb i ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru, a chan ddarparu gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar ar gyfer plant dan anfantais, pobl ifanc a theuluoedd ledled y sir. (Cyf. 13095)</p>	<p>Derbyniodd 9291 o unigolion gymorth gan brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhaglen ddiwygiedig yn cynnwys 13 prosiect, o dan dri phrif faes: Cymorth rhianta, cymorth i bobl ifanc a chymorth anabledd. Bu nifer o newidiadau hefyd, gan gynnwys newid y prosiect Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd am y prosiect Cymorth i Deuluoedd ac Ysgolion newydd. Mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chefnogi Pobl i ddatblygu manyleb ar y cyd ar gyfer Cam-drin Domestig. O Ebrill 2019 bydd y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei chynnwys gyda 6 ffrwd ariannu arall o dan y Grant Plant a Chymunedau, a fydd yn helpu i wella ac integreiddio'r gwasanaethau a ddarperir.</p>
<p>Byddwn yn parhau i weithredu ac atgyfnerthu model 'MACSE' (Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant - Amlasiantaeth) ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r trothwyon rhanbarthol a'r trefniadau aml-asiantaeth. (Cyf. 13096)</p>	<p>Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn parhau i fod yn fater blaenoriaeth allweddol yn lleol ac yn rhanbarthol ac mae nifer o ddiwyddiadau wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Mae Sir Gaerfyrddin yn sicrhau bod camfanteisio'n rhywiol ar blant ar agenda cyfarfodydd lleol yn fewnol ac yn aml-asiantaethol. Mae cyfarfodydd MACSE penodol yn parhau i ystyried plant a phobl ifanc sydd mewn perygl cymedrol a sylweddol o achos camfanteisio'n rhywiol. Caiff camfanteisio'n rhywiol ar blant ei gynnwys yn yr holl hyfforddiant diogelu sylfaenol er mwyn sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth eang o'r materion hyn. Mae Sir Gaerfyrddin yn rhan o gynllun peilot Barnardo's mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac o ran y cynllun gweithredu rhanbarthol.</p>
<p>Byddwn yn parhau i ymestyn y dull Tîm o Amgylch y Teulu ar draws y sir ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed, gan egluro trothwyau i helpu i roi gwybod i deuluoedd ac asiantaethau eraill i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r help iawn ar yr adeg iawn. (Cyf. 13097)</p>	<p>Eleni gwelwyd nifer o ddatblygiadau'n dwyn ffrwyth. Mae'r ddogfen drothwy'n dal i gael ei hymgorffori. Mae Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd newydd yn weithredol ers 1 Ebrill 2019. Mae gan y prosiect Tîm o Amgylch y Teulu newydd gydgysylltydd a thri gweithiwr amser llawn ac mae'r rhaglen sefydlu ar waith. Cynhelir cysylltiadau â thimau gwasanaethau plant ynghyd ag Addysg a Dechrau'n Deg i sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae grŵp Gorchwyl a Gorffen yn datblygu Cynllun Cefnogi Ymddygiad i Ysgolion ar gyfer y dyfodol.</p>
<p>Byddwn yn adolygu ein strategaeth Rhianta Corfforaethol ac yn cymryd i ystyriaeth y canllawiau newydd ar gyfrifoldeb y Cyngor cyfan fel rhieni corfforaethol. (Cyf 13098) MF5-40</p>	<p>Mae grŵp o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn datblygu strategaeth newydd gyda chymorth y Tîm Rhianta Corfforaethol a <i>Voices from Care</i>. Maent wedi cyfarfod â nifer o uwch-arweinwyr ac wedi bod yn rhan o Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Mae 70% o'r strategaeth newydd wedi ei chwblhau a gobaith y bobl ifanc yw y bydd y strategaeth i gyd wedi'i chwblhau dros wyliau'r haf.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cynyddu % presenoldeb plant 2-3 oed cymwys mewn lleoliad gofal plant neilltuedig Dechrau'n Deg, sydd am ddim, i'w paratoi i fod yn barod ar gyfer yr ysgol. (9.1.8.1) (Canlyniad 2017/18 - 77% / Targed 2018/19 - 80%)</p>	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 79.2%.</b> Mae'n siomedig gan fod y canlyniad hwn bron iawn â chyrraedd y targed, ond mae'n welliant ar ganlyniad 2017/18 o 77%. Yn ddiweddar rydym wedi adolygu ein polisi presenoldeb a'n prosesau dadgofrestru a byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr gofal plant ac ymwelwyr iechyd i gynyddu'r cyfraddau presenoldeb yn y lleoliadau.</p>
<p>Byddwn yn lleihau % absenoldeb heb awdurdod plant 2-3 oed cymwys mewn lleoliad gofal plant neilltuedig Dechrau'n Deg, sydd am ddim, i'w paratoi i fod yn barod ar gyfer yr ysgol. (9.1.8.8) (Canlyniad 2017/2018 - 3.60% / Targed 2018/19 - 3.55%)</p>	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 2.59%.</b> Mae'r canlyniad hwn yn rhagori ar ein targed ac mae'n dangos gwelliant ar ein canlyniad yn y flwyddyn flaenorol sef 3.6%.</p>
<p>Fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, gofynnir i blant a ydynt yn fodlon ar y gofal a'r gefnogaeth maent yn eu cael. (PAM/027) (Canlyniad 2017/18 - Roedd 80.7% yn fodlon ac roedd 2.4% yn dweud nad oeddent yn fodlon / Targed 2018/19 – 81.9% neu uwch)</p>	<p><b>Canlyniad 2018/19 – roedd 84.6% yn fodlon.</b> Anfonwyd cyfanswm o 461 o holiaduron at blant rhwng 7 ac 17 oed sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol. Dychwelwyd 71 ohonynt (15.4%). ✓ Dywedodd 84.6% o'r plant eu bod yn fodlon â'r gofal a'r gefnogaeth maent yn eu cael. Dim ond 4.6% (3 phlentyn) oedd yn anfodlon â'u gofal a'u cefnogaeth. Rydym yn falch o fod wedi rhagori ar ein targed (81.9%) a chanlyniad y llynedd (80.7%).</p>
<p>Ein nod yw cadw i leiafswm ganran y plant sy'n derbyn gofal a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau pontio. (SCC/32) (Canlyniad 2017/18 – 4.0% / Targed 2018/19 – 4.0%)</p>	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 0.9%.</b> Rydym yn dal i berfformio'n dda yn y mesur hwn. Gwneir ymdrechion i gynnal sefydlogrwydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl drwy sicrhau bod plentyn yn parhau i fod yn yr un ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn wastad er budd y plentyn e.e. pellter i deithio, anghenion academaidd y plentyn ddim yn cael eu diwallu ✓ Cofiwch y bydd % y canlyniad yn amrywio yn dibynnu ar nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd o oedran ysgol gorfodol ar ddiwedd pob cyfnod - po isaf y nifer po uchaf % y canlyniad.</p>
<p>Ein nod yw lleihau % y plant mewn gofal yr oedd yn rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy (PAM/029) (Canlyniad 2017/18 - 8.8% / Targed 2018/19 - 8.3%)</p>	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 10.4%.</b> Mae'n siomedig nad yw'r targed o 8.3% wedi cael ei gyrraedd ac mae'r canlyniad yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng yn Sir Gaerfyrddin i 183, sydd ymhlith y goreuon yng Nghymru. Mae'r gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi effeithio ar ein ffigurau gwaelodlin. Ymhlith y rhesymau dros symud y mae:- lleoliadau argyfwng/amgen ar gyfer ceiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain, y mae gan bob un ohonynt anghenion gwahanol a diwylliannol; angen lleoliadau argyfwng/mwy profiadol ar frodyr a chwiorydd o achos bod angen cymorth ar lefel uchel gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed, er enghraifft babi â llawer o anghenion meddygol ac ati. ✗ Bydd yr adran yn parhau i adolygu a gwella sefydlogrwydd lleoliadau drwy'r panel llety. Bydd cyfarfodydd cymorth pendant â lleoliadau yn sicrhau bod gofalwyr yn cael cefnogaeth dda a bod y plant a</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
	roddir yn eu gofal yn gallu cael eu cadw'n ddiogel gydag adnoddau ychwanegol.
<p>Byddwn yn cynyddu canran yr asesiadau plentyn a gwblheir ar amser <i>(PAM/028)</i>  <i>(Canlyniad 2017/18 – 89.7% / Targed 2018/19 – 90%)</i></p>	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 87.2%.</b> Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae problemau staffio wedi bod yn un o'r timau asesu sydd wedi dylanwadu ar gwblhau asesiadau o fewn y terfynau amser, ond mae'r problemau hynny wedi'u datrys erbyn hyn. Mae Rheolwyr Gwasanaeth yn cynnal archwiliadau misol rheolaidd gan roi adborth i'r rheolwyr a'r personél perthnasol. Caiff unrhyw themâu neu dueddiadau a amlygir yn yr archwiliadau eu hymgorffori i'r sesiynau datblygu ymarfer gyda rheolwyr a'r gweithlu.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod plant a gefnogir yn dal i fyw gyda'u teulu lle bynnag y bo'n bosibl <i>(SCC/25)</i>  <i>(Canlyniad 2017/18 – 81.5% / Targed 2018/19 - 82.0%)</i></p>	<p>Cafodd <b>82.3%</b> o blant gymorth er mwyn parhau i fyw gyda'u teulu yn ystod 2018/19. Mae'r canlyniad hwn yn cadw at y targed ac yn welliant ar y flwyddyn flaenorol.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn dychwelyd adref o ofal mor gyflym a mor ddiogel â phosibl <i>(SCC/26)</i>  <i>(Canlyniad 2017/18 - 22.7% / Targed 2018/19 - 23.0%)</i></p>	<p>Roedd <b>19.8 %</b> o blant sy'n derbyn gofal wedi dychwelyd adref o ofal yn ystod 2018/19, ac mae hyn yn llai nag yr oeddem wedi gobeithio amdano ac yn is na'r flwyddyn flaenorol, ond ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru am 2017/18 sef 10.5%. Ar nodyn cadarnhaol, mae nifer y bobl ifanc sydd wedi gallu aros gyda'u gofaldwyr maeth o dan y trefniadau <i>Pan Fydda i'n Barod</i> ar ôl troi'n 18 oed wedi cynyddu o 7 (17/18) i 13 eleni. Mae'r plant a fabwysiadwyd wedi codi o 4 (17/18) i 13 (18/19).</p>
<p>Ein nod yw cadw % yr achosion o ailgofrestru plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol (CPR) i leiafswm <i>(SCC/27)</i>  <i>(Canlyniad 2017/18 – 0.7% / Targed 2018/19 - 6.0%)</i></p>	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 6.3%.</b> Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae perfformiad y gorffennol wedi bod yn eithaf eithafol gyda chanlyniadau diwedd y flwyddyn ar gyfer 16/17 yn 10.4% a 17/18 yn 0.7. Felly, mae rhagweld perfformiad a gosod targedau wedi bod yn anodd. Canlyniad 17/18 Cymru Gyfan = 5.4% Mae nifer y cofrestriadau yn ystod 2018/19 wedi gostwng o 138 (17/18) i 126. Rydym wedi bod yn gweithio gyda theuluoedd i leihau risg a sicrhau bod cynlluniau diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol ar draws model <i>signs of safety</i> o gydweithio gydag arferion systemig a chyfarfodydd rhwydwaith teulu yn gynnar yn y broses. Mae'n bosibl bod gwaith gyda theuluoedd a chynnwys adnoddau megis Cymorth Dwys i Deuluoedd a Thimau Ar Ffiniau Gofal wedi cyfrannu at hyn hefyd</p> <p>Y rhesymau dros ailgofrestru oedd dirywiad yn iechyd meddwl rhieni; cam-drin domestig/iechyd meddwl rhieni; rhiant yn ymwneud â chyffuriau neu'n mynd nôl i'w hen arferion o gamddefnyddio sylweddau; ymchwiliad parhaus i'r posibilrwydd o anaf nad yw'n ddamwain, a phlentyn yng ngofal perthynas.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithio gyda phlant a theuluoedd dan fodel <i>Signs of Safety</i> o gydweithio gydag arferion systemig a chyfarfodydd rhwydwaith teulu yn gynnar</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn lleihau'r cyfartaledd amser yr oedd yr holl blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn <i>(SCC/28)</i></p> <p><i>(Canlyniad 2017/18 - 213.1 diwrnod / Targed 2018/19 - 211.2 o ddiwrnodau)</i></p>	<p>yn y broses. Mae'n bosibl bydd gwaith gyda theuluoedd a chynnwys adnoddau megis Cymorth Dwys i Deuluoedd a Thimau Ar Ffiniau Gofal hefyd yn parhau.</p> <p><b>Canlyniad 2018/19 - 262.4 diwrnod.</b> Nid yw'r canlyniad hwn yn cyrraedd y targed ac mae wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r mesur hwn yn edrych ar y plant hynny a dynnwyd oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn. Mae nifer y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant wedi cynyddu o 108 (2017/18) i 143 (2018/19) sy'n gadarnhaol. Fodd bynnag, mae hyn hefyd wedi effeithio ar nifer y diwrnodau cofrestru gan fod 35 o blant ychwanegol wedi'u cynnwys yn y garfan o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.</p> <p>✘ Rydym wedi bod yn gweithio gyda theuluoedd, a byddwn yn parhau i wneud hynny, er mwyn lleihau risg a sicrhau bod cynlluniau diogelwch yn cael eu rheoli'n effeithiol ar draws model <i>signs of safety</i> o gydweithio gydag arferion systemig a chyfarfodydd rhwydwaith teulu. Byddwn hefyd yn parhau'r gwaith ataliol gyda theuluoedd ac yn cynnwys y tîm Cymorth Dwys i Deuluoedd a'r tîm Ar Ffiniau Gofal. Mae'r ffigurau'n fach iawn a gall amrywiadau ddylanwadu'n sylweddol ar y canlyniad yn y pen draw.</p>
<b>B – Anghenion Dysgu Ychwanegol</b>	
<p>Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn ac yn cydymffurfio â gofynion y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n anelu at drawsnewid disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc drwy ddatblygu system unedig i gefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol rhwng 0 a 25 oed. <i>(Cyf 13099) MF5-39</i></p>	<p>✓ Mewn ymateb i'r Cynllun Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Rhanbarthol, rydym wedi llunio Cynllun Gweithredu ar gyfer Trawsnewid ADY Lleol. Caiff y Cynllun hwn ei fonitro gan Grŵp y Cynllun Trawsnewid ADY Strategol.</p>
<p>Byddwn yn parhau i neilltuo cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol i ysgolion a'u helpu i fapio darpariaeth a diwallu'r holl anghenion ar lefel leol. Byddwn yn ystyried camau yn y dyfodol i ddatblygu fformiwla cyllid ysgolion genedlaethol wedi'i seilio ar anghenion ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. <i>(Cyf. 13100)</i></p>	<p>✓ Mae offeryn mapio darpariaeth electronig wedi'i ddatblygu ac mae hyfforddiant yn yr arfaeth i'w gyflwyno i ysgolion. Ymgynghorydd yr Awdurdod Lleol ag ysgolion cynradd ynghylch model Ariannu Fformiwla ADY diwygiedig, a chytunwyd arno ac fe'i mabwysiadwyd.</p>
<p>Byddwn yn parhau i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu hymagweddau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion i nodi angen, cyflawni darpariaeth dysgu ychwanegol bersonol a darparu ymatebion integredig cyfannol drwy waith amlasiantaeth. <i>(Cyf. 13101)</i></p>	<p>✓ Mae carfan newydd o 20 o hyfforddwyr cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (PCP) mewn ysgolion wedi'u dewis i roi hyfforddiant iddynt a chânt eu mentora mewn ymarfer PCP. Mae rhaglen o hyfforddiant ar gyfer Hyrwyddwyr a Hyfforddwyr PCP, gan gynnwys ystod o staff ysgol, wedi sicrhau bod ysgolion yn defnyddio dulliau PCP i adnabod ADY yn gynnar, yn cyflwyno Darpariaeth Dysgu Ychwanegol, a, thrwy ddefnyddio Proffiliau Un Dudalen a Chynlluniau Datblygu Unigol, yn darparu ymatebion cyfannol wedi'u hintegreiddio drwy waith amlasiantaethol.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn parhau i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol i ddiwallu'r holl anghenion ym mhob cam. <i>(Cyf. 13102)</i></p>	<p>✓ Rydym wedi datblygu templedi a chanllawiau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Unigol i ddiwallu'r holl anghenion ym mhob cam. Ar ôl cydweithio â TG, bydd templedi yn cael eu dal fel ffeil ddogfen ar ffeiliau disgyblion ar y Ganolfan Athrawon (System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion). Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen ADY rhanbarthol yn parhau i gyfarfod i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Unigol i ddiwallu'r holl anghenion ym mhob cam.</p>
<p>Byddwn yn monitro, yn gwerthuso ac yn dathlu cyflawniadau wrth gyrraedd cerrig milltir allweddol o ran diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn enwedig y fframwaith asesu a gwerthuso i roi'r hyder i ysgolion fod yn arloesol. <i>(Cyf. 13103)</i></p>	<p>✓ Gwnaethom gymryd rhan yng Ngrŵp Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar y dull ar gyfer trosglwyddo Cynllun Datblygu Unigol i'r Awdurdod Lleol a hefyd ar ddatblygu Côt ADY. Wedi cymryd rhan yn niweddariad Llywodraeth Cymru am y grant Arloesi. Yr Awdurdod Lleol yn rhannu gwaith Llywodraeth Cymru ar asesiadau effaith ar gyfer maes anghenion penodol gyda Phenaethiaid a Chydgyssylltwyr ADY. Rydym wedi ymgynghori â'r holl randdeiliaid ar y Côt ADY sy'n rhoi hyder i ysgolion y bydd y Côt ADY newydd yn cefnogi arloesi.</p>
<p>Byddwn yn adolygu data'r gweithlu mewn perthynas ag ystod o wasanaethau cymorth, e.e. Seicoleg Addysg a Phlentyn, cymorth Nam ar y Synhwyrac ac Athrawon Ymgynghorol, i sicrhau cymorth ar gyfer nifer fach o achosion o anghenion cymhleth iawn a nifer fawr o achosion o anghenion sy'n isel eu cymhlethdod. <i>(Cyf. 13104)</i></p>	<p>✓ Mae data'r gweithlu wedi cael ei adolygu. Rydym wedi clustnodi Athro/Athrawes Disgyblion Byddar ac Athro/Athrawes plant a phobl ifanc â nam amlsynnwyr i gael hyfforddiant i ennill cymhwyster gorfodol uwch arbenigol er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â nam ar y synhwyrac yn yr Awdurdod. Mae hyn yn cael ei adolygu. Mae gwasanaethau cymorth yn cael eu hatgyfnerthu drwy gynyddu staff allweddol, e.e. Swyddog Cyswllt â Theuluoedd. Mae cais Twf wedi darparu adnoddau ychwanegol i gynyddu capasiti'r gweithlu ym meysydd Trawsnewid ADY, cyswllt teulu, a chymorth ar gyfer cynyddu capasiti mewn ysgolion.</p>